## Cynllun Datblygu Ysgol / School Development Plan Summary 2025–26

Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu cryfderau allweddol Ysgol Glan Ceubal, meysydd sydd angen gwella, a blaenoriaethau ar gyfer 2025–26. Mae'n darparu sylfaen ar gyfer cynllunio tymhorol a thargedau datblygu tri blynedd.

This summary outlines Ysgol Glan Ceubal's key strengths, areas for development, and priorities for 2025–26. It provides a foundation for termly planning and three-year development targets.

### Crynodeb o Hunan-werthuso'r Ysgol / School Self-Evaluation Summary

- **Dysgu ac Addysgu / Teaching and Learning**

Mae addysgu ar draws yr ysgol o safon dda, gyda gwersi wedi'u cynllunio'n effeithiol sy'n adeiladu'n ddilynol ar wybodaeth a medrau disgyblion. Mae dulliau asesu, gan gynnwys Seesaw, yn cefnogi hunanasesu ac adborth adeiladol. Defnyddir Llafar Llwyddiannus a thechnoleg ddigidol fel Canva i feithrin hyder a llafaredd ymhlith disgyblion.

Teaching across the school is of good quality, with lessons effectively planned to build progressively on pupils' knowledge and skills. Assessment methods, including Seesaw, support self and peer assessment and constructive feedback. 'Llafar Llwyddiannus' and digital tools such as Canva are used to develop pupils' confidence and oracy.

- **Cynnydd a'r Cwricwlwm / Progress and Curriculum**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn cael ei datblygu'n effeithiol gyda'r holl athrawon yn cynllunio'n bwrpasol. Mae gweithgareddau allanol a gweithgareddau meithrin annibyniaeth yn cefnogi datblygiad disgyblion.

Most pupils make good progress from their starting points. The school's vision for the Curriculum for Wales is developing effectively, with all teachers planning purposefully. Outdoor activities and independence-focused tasks support pupils' development.

- **Lles a Chymuned / Wellbeing and Community**

Mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn cyfrannu i fywyd yr ysgol trwy wahanol grwpiau llais. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau allanol i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd.

Pupils enjoy their lessons and contribute to school life through various pupil voice groups. The school works successfully with external agencies to support pupils and their families.

- **Arweinyddiaeth / Leadership**

Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda, ac mae gweledigaeth glwstwr a llywodraethwyr yn cael eu datblygu'n dda. Mae hyfforddiant a dysgu proffesiynol parhaus yn cefnogi gwella arfer athrawon.

Staff know pupils very well, and the cluster vision and governors' involvement are well developed. Ongoing professional development supports the continuous improvement of teaching practice.

## Meysydd i'w Gwella / Areas for Improvement

- Parhau i godi safonau Cymraeg llafar, darllen ac ysgrifennu.
- Continue to raise standards in Welsh oracy, reading and writing.
- Parhau i fireinio cynllunio ac asesu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.
- Continue to refine planning and assessment for the Curriculum for Wales.
- Parhau i ddatblygu a dechrau gwreiddio rôl strategol y llywodraethwyr.
- Continue to develop and begin embedding the strategic role of governors.
- Defnyddio ardal allanol a gweithgareddau annibynnol i gefnogi dysgu disgyblion.
- Use outdoor areas and independent learning activities to support pupil learning.

## Blaenoriaethau Ysgol 2025–26

**Blaenoriaeth 1**

**Codi Safonau Disgyblion yn y Gymraeg ar draws yr ysgol.**

**Blaenoriaeth 2**

**Parhau i fireinio'n cynllunio a'r darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.**

**Blaenoriaeth 3**

**Mireinio ymhellach gweithdrefnau asesu a thracio cynnydd.**

**Blaenoriaeth 4**

**Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel**

## School Priorities 2025–26

Priority 1

Raising Pupil Standards in the Welsh language across the school.

Priority 2

Continue to refine planning and the provision for the Curriculum for Wales.

Priority 3

Further refine assessment and progress tracking procedures.

Priority 4

Continue to develop leadership at all levels.